# Pennaeth Ffrydio a Digidol

## Pwrpas y rôl

Mae hon yn rôl sy'n ganolog i'r trawsnewid sydd ei angen ar S4C i gyflawni ein hamcanion strategol ar gyfer 2025 – 2030. Mi fydd yn arwain ar strategaeth gyhoeddi aml-lwyfan a digidol yn gyntaf S4C.

Bydd y Pennaeth Ffrydio a Digidol yn sicrhau bod ein cynnwys ar gael, ac yn weledol, ar y llwyfan mwyaf addas i'r gynulleidfa darged.

Bydd y rôl yn gweithio gyda'r timau comisiynu, cyhoeddi, digidol, marchnata, ymchwil a datblygu cynnyrch, i sicrhau bod holl gynnwys S4C yn cael ei ddosbarthu a'i flaenoriaethu ar draws y llwyfannau digidol mwyaf perthnasol, gan ddiwallu anghenion ein cynulleidfaoedd a sicrhau'r gwerth gorau i S4C. Bydd yn sicrhau bod S4C:

- Yn ddeniadol, o ran diwyg a dewis o gynnwys ar ein llwyfannau drwy guradu effeithiol a delweddau cryf.
- Ar flaen y gad gyda datblygiadau technolegol newydd ar ein chwaraewr ein hunain, i wella'r profiad gwylio.
- Yn amlwg ac yn atyniadol ar blatfformau 3ydd parti, fel BBC iPlayer ac YouTube.

Bydd yn cyfrannu at lywio ein cynnwys i ateb gofynion ein cynulleidfaoedd digidol a'r newid diwylliannol sydd ei angen ar gyfer trawsnewid digidol gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allanol ar draws y sector.

Bydd gennych brofiad o gynhyrchu cynnwys aml-blatfform a dealltwriaeth dda o strategaethau cyhoeddi ar blatfformau digidol.

Bydd rôl arweinyddol yn yr adran hon yn hanfodol i sicrhau ein bod yn diogelu S4C yn y dyfodol yn y farchnad heriol newydd tra'n datblygu sgiliau a dealltwriaeth y sector gynhyrchu.

**Yr Adran**
Mae'r tîm digidol yn gweithio'n agos â'r timau Comisiynu, Cynllunio, Marchnata ac Ymchwil i weithredu cynlluniau cyhoeddi aml-blatfform.

**Prif atebolrwydd a chyfrifoldebau**

- Strategaethau Cynnwys a Chyhoeddi Aml-blatfform
- Gweledigaeth ffrydio
- Arwain y tîm digidol
- Perthynas â'n Cyflenwyr
- Gwneud y mwyaf o ymgysylltu â chynulleidfaoedd

**Swydd disgrifiad**

- Gweithio'n agos ac yn atebol i'r Prif Swyddog Cynnwys i sicrhau bod cynnwys addas, amrywiol a gwreiddiol yn cael ei gyfleu ar gyfer yr amrywiol lwyfannau.

- Ar y cyd gyda’r Pennaeth Cynllunio, cyfrannu at arddull, cywair, cyflwyniad ac amserlen aml-lwyfan sydd yn creu penawdau cynnwys digidol ar draws y flwyddyn.

- Cyfrannu i ddatblygu strategaeth gyhoeddi cynnwys ar blatfformau amrywiol, er mwyn denu cynulleidfaoedd ehangach i S4C, a monitro perfformiad a chyrhaeddiad y gwasanaeth ar y llwyfannau hynny.

- Rhoi cyfarwyddyd i’r Arweinydd Cynnwys Digidol, Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol a’r tîm ehangach ar bob agwedd o’r cynnwys a’r cyhoeddi ar blatfformau digidol gan sicrhau cydymffurfiaeth, safon a strategaeth gyhoeddi effeithiol.

- Cyfrannu at Strategaeth Gyhoeddi Newyddion Digidol, drwy gydweithio gyda’r Comisiynydd a Golygyddion perthnasol.

- Cynorthwyo yn y broses o arwain newid i sicrhau bod yna gynllun gweithredol a fydd yn sicrhau bod patrymau gwaith newydd yn cael eu diffinio a’u hymgorffori fel rhan o fusnes arferol sy'n bodloni gofynion strategaeth S4C.

- Cydweithio a meithrin perthnasau cryf gyda’r sector gynhyrchu a phartneriaid allanol eraill.

- Cyfrannu at y defnydd o dechnolegau newydd, dadansoddi data ac arloesi mewn ffrydiau cynnwys digidol.

- Annog integreiddio rhwng darlledu traddodiadol a llwyfannau digidol S4C i greu profiad unedig i’r gynulleidfa.

- Goruchwylio’r strategaeth cynnwys digidol, gan gynnwys fformatau byr, cynnwys ar alw a dulliau rhyngweithiol.

- Datblygu cynlluniau sy’n defnyddio data i dyfu a chadw cynulleidfaoedd digidol, gan wneud y gorau o brofiad defnyddwyr a phersonoli cynnwys.

- Cydweithio ac arloesi gyda’r tîm ymchwil er mwyn cyflwyno penderfyniadau.

- Goruchwylio strategaethau cyfryngau cymdeithasol S4C i gryfhau presenoldeb y brand ac ymgysylltu â’r gynulleidfa.

- Arwain ar gydweithio trawsadrannol yn arbennig gyda’r tîm marchnata ac ar ymgyrchoedd digidol er mwyn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a sicrhau ymgysylltiad llwyddiannus gyda chynulleidfaoedd.

- Defnyddio data a mewnwelediadau i wella darganfyddiad cynnwys ac ymgysylltu ar draws llwyfannau, a sicrhau ein bod yn gosod mesuryddion effeithiol ar gyfer perfformiad cynnwys digidol.

- Cydweithio gyda’r Adran Gyhoeddi i sicrhau fod cyfleu a’r cyhoeddi yn effeithiol.

- Unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

**Manyleb Person**

| Nodwedd | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Profiad** | Y gallu i greu cynlluniau cynnwys addas, amrywiol a gwreiddiol yn cael eu cyfleu ar gyfer yr amrywiol lwyfannau.<br><br>Creu amserlen aml-lwyfan digidol ar draws y flwyddyn.<br><br>Profiad o ddatblygu strategaeth gyhoeddi cynnwys ar blatfformau amrywiol.<br><br>Profiad o ddenu cynulleidfaoedd, monitro perfformiad a chyrhaeddiad gwasanaethau llwyfannau.<br><br>Rhoi profiad o reoli ac arwain Tîm.<br><br>Profiad o weithio o fewn rheolau cydymffurfiaeth, i gynnal safon a strategaeth gyhoeddi effeithiol.<br><br>Profiad o gydweithio'n agos gyda rhanddeiliaid perthnasol dros adrannau.<br><br>Profiad o annog a rheoli newid.<br><br>Profiad o gydweithio a meithrin perthnasau cryf gyda'r sector gynhyrchu a phartneriaid allanol eraill.<br><br>Profiad o dadansoddi data ac arloesi mewn ffrydiau cynnwys digidol.<br><br>Profiad o ystyried anghenion darlledu traddodiadol a llwyfannau digidol.<br><br>Profiad o ddatblygu cynlluniau sy'n defnyddio data i dyfu a chadw cynulleidfaoedd digidol, gan wneud y gorau o brofiad defnyddwyr a phersonoli cynnwys. | |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | Dealltwriaeth ddofn o dueddiadau defnyddwyr a llwyfannau digidol gan gynnwys YouTube, BBC iPlayer, a chwaraewyr cyfryngau eraill.<br><br>Gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol cynnwys digidol a strategaethau cyhoeddi aml-lwyfan. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Meddylfryd "cynulleidfa gyntaf" – yn gallu diffinio a gwasanaethu anghenion cynulleidfaoedd amrywiol, yn enwedig cynulleidfaoedd digidol ifanc.<br><br>Sgiliau wrth greu cynnwys a phrofiadau sy'n ddeniadol, perthnasol ac effeithiol i wahanol segmentau cynulleidfa.<br><br>Y gallu i gyfathrebu yn gywir ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg i safon dda. | |
| **Nodweddion Personol** | Profiad o adeiladu ac arwain timau aml-sgil ac adrannau rhyngddisgyblaethol.<br><br>Llygad graff am gyflwyniad gweledol a chyfathrebu effeithiol drwy gynnwys.<br><br>Meddu ar agwedd hyblyg ac arloesol – yn barod i brofi a dysgu'n gyflym mewn tirwedd sy'n newid.<br><br>Gallu delio ag ansicrwydd ac addasu i flaenoriaethau newydd yn gyflym ac effeithlon.<br><br>Uniaethu gyda gwerthoedd craidd S4C: **Bod dy orau, Balchder yn S4C, Dathlu pawb, Mynd amdani.** | |

**Manylion eraill**

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | Mae gan S4C swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, Caerdydd a Chaernarfon ac maent yn gweithredu polisi gweithio'n hybrid. Disgwylir i chi deithio i le bynnag y bydd S4C yn rhesymol yn ei orchymyn. |
| **Cyflog:** | £80,000 y flwyddyn |
| **Cytundeb:** | Parhaol |
| **Oriau gwaith:** | 35.75 yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc. |
| **Cyfnod prawf:** | 6 mis |
| **Gwyliau:** | Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau. Os ydych yn cael eich cyflogi yn rhan amser byddwch yn derbyn cyfran pro rata o'r gwyliau. |

S4C

**Pensiwn:** Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%.

**Ceisiadau**

Dylid anfon ceisiadau erbyn **12.00 ar ddydd Llun 16 Mehefin 2025** trwy lenwi'r ffurflen gais yma.

**Dyddiad Cyfweliadau: Dydd Iau 26 Mehefin 2025**

Nid ydym yn derbyn CV.

Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Defnyddio AI**

Os ydych chi'n dewis defnyddio AI neu offer tebyg, gwnewch yn siŵr bod eich ymatebion yn fanwl gywir, yn onest ac yn adlewyrchu'ch profiad a'ch geiriau eich hun. Gall ceisiadau nad ydynt yn wreiddiol neu sydd wedi'u cynhyrchu gan AI gael eu gwrthod.

Yn ystod y cyfweliad, ni chaniateir defnyddio AI nac offer recordio, oni bai bod hynny wedi'i gytuno ymlaen llaw ar sail hygyrchedd. Gall unrhyw dystiolaeth o ddefnydd heb ganiatâd arwain at dynnu'ch cais yn ôl.

**Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR